Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Arweiniad atodol ar arolygu cydraddoldeb hiliol, hyrwyddo rhyngberthnasoedd da a Saesneg fel iaith ychwanegol

Medi 2010

Iechyd ar Waith
CYFRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; a
- darpariaeth cyflogaeth wedi'i chontractio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yng Nghymru.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Beth yw'r diben?

I roi arweiniad i arolygwyr ar arfarnu cydraddoldeb hiliol, hyrwyddo rhyngberthnasoedd da a Saesneg fel iaith ychwanegol mewn ysgolion pan fydd yn drywydd ymholi.

Ar gyfer pwy y'i bwriadwyd?

Pob arolygydd ysgolion a gynhelir.

Pryd dylai'r arweiniad ddechrau cael ei ddefnyddio?

O Fedi 2010.

1 Cyflwyniad

Mae'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r llawlyfrau ar gyfer y gwahanol sectorau yn cynnwys arweiniad ar arolygu materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb hiliol, hyrwyddo rhyngberthnasoedd da a Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae disgwyl i arolygwyr arfarnu ac adrodd am ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth gan ei bod yn un o'r ddwy elfen yn Nangosydd Ansawdd 2.4 'yr amgylchedd dysgu'. Yn rhan o Gwestiwn Allweddol 1 am ddeilliannau, bydd arolygwyr hefyd yn ystyried perfformiad gwahanol grwpiau o ddysgwyr gan gynnwys y rhai sydd â Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Byddant hefyd yn arfarnu'r ddarpariaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhan o Ddangosydd Ansawdd 2.3 'gofal, cymorth ac arweiniad'.

Mae'r arweiniad ategol hwn yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ychwanegol ar gyfer arolygu'r meysydd hyn.

Nid oes disgwyl i chi ofyn pob un o'r cwestiynau a awgrymir. Cewch ddefnyddio'r rhain i geisio ffocysu'r trafodaethau gyda staff perthnasol neu mewn cyfarfodydd gyda'r tîm arolygu.

2 Arfarnu cydraddoldeb hiliol

Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000

Mae'r Ddeddf Ddiwygio yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, wrth gyflawni eu swyddogaeth gyhoeddus i ystyried yr angen i:

- hyrwyddo cyfle cyfartal;
- hyrwyddo cydberthnasoedd da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol; a
- chael gwared ar wahaniaethu hiliol anghyfreithlon.

Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod gan ysgolion a cholegau bolisi cydraddoldeb hiliol sy'n cynnwys staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr, yn ogystal â'r gymuned ehangach.

Mae'r ddyletswydd benodol ar ysgol yn ei gorfodi i:

- gael datganiad ysgrifenedig o bolisi ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb hiliol;
- pennu trefniadau fel y bo angen ar gyfer cyflawni ei dyletswyddau statudol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol;
- asesu gweithrediad ac effaith pob un o'i pholisïau, gan gynnwys ei pholisi cydraddoldeb hiliol, ar staff, disgyblion a rhieni yn ogystal â lefelau cyrhaeddiad y disgyblion yn benodol;
- monitro, drwy gyfeirio at grwpiau hiliol, gwybodaeth am dderbyn a chynnydd disgyblion;
- monitro, drwy gyfeirio at grwpiau hiliol, gwybodaeth am recriwtio staff a'u cynnydd gyrfaol; a
- cyfeirio at ei threfniadau ar gyfer cyhoeddi'r polisi cydraddoldeb hiliol a chyfathrebu canlyniadau ei weithgareddau asesu a monitro o dan y polisi hwn.

Rhestr wirio arolygu[1]

Dylech ystyried yn bennaf:

- a oes gan yr ysgol bolisi cydraddoldeb hiliol?
- a yw'r polisi cydraddoldeb hiliol yn cynnwys yr holl ddyletswyddau penodol sydd gan yr ysgol o dan y Ddeddf yn ogystal â phrif feysydd gweithgarwch yr ysgol sy'n berthnasol o ran hyrwyddo'r ddyletswydd gyffredinol?

[1] Wedi'i gymryd o'r 'Fframwaith i Arolygwyr' a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Gorffennaf 2002.

- a yw'r polisi cydraddoldeb hiliol wedi'i gysylltu â chynllun datblygu'r ysgol ac yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd?

- a yw'r ysgol wedi gwneud trefniadau i asesu effaith pob un o'i pholisïau ar ddisgyblion, staff a rhieni o wahanol grwpiau hiliol ac yn rhoi blaenoriaeth i effaith ei pholisïau ar lefelau cyrhaeddiad y disgyblion?

- a yw'r ysgol wedi gwneud trefniadau i fonitro effaith ei pholisïau a'r ffordd maent yn gweithio, ac yn rhoi blaenoriaeth i effaith ei pholisïau ar lefelau cyrhaeddiad y disgyblion; ac

- a yw'r ysgol wedi gwneud trefniadau i gyhoeddi ei chanlyniadau monitro bob blwyddyn.

Dyma rai cwestiynau i'w gofyn mewn cysylltiad â chydraddoldeb hiliol:

- A yw'r ysgol yn defnyddio "Dysgu i Bawb: Safonau ar gyfer cydraddoldeb hiliol mewn ysgolion" (cyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ac ar gael gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) i gael arweiniad ac enghreifftiau o arfer dda?

- A yw'r ysgol yn gwerthfawrogi cyfraniad disgyblion o leiafrifoedd ethnig?

- Sut mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag ystrydebu?

- A yw gwahaniaethau diwylliannol ac amrywiaeth yn cael eu gwerthfawrogi a'u dathlu yn yr ysgol?

- Sut mae'r ysgol yn hyrwyddo parch a dealltwriaeth o ddiwylliannau amrywiol, ieithoedd, grwpiau ffydd ac ethnig, yn enwedig os oes nifer fechan o ddisgyblion sydd o'r cefndiroedd amrywiol hyn yn yr ysgol?

- A yw disgyblion yn oddefgar tuag at gredoau, diwylliannau a chefndiroedd pobl eraill?

- Pa mor effeithiol y mae gwahanol agweddau ar y cwricwlwm yn cyfrannu at feithrin ymwybyddiaeth y disgyblion o amrywiaeth ddiwylliannol?

- A yw disgyblion yn gallu trafod a myfyrio ar fywyd mewn diwylliannau eraill?

- A yw disgyblion yn adnabod ac yn deall yn gynyddol amrywiaeth o gredoau, agweddau a thraddodiadau cymdeithasol a diwylliannol?

- Sut mae addoli ar y cyd, sy'n seiliedig ar fframwaith Cristnogol yn bennaf, yn cyfrannu at ymwybyddiaeth y disgyblion o amrywiaeth ddiwylliannol?

- Sut mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion o grefyddau eraill i ystyried eu harferion crefyddol eu hunain?

- A yw’r ysgol yn gwneud defnydd da o adnoddau ychwanegol, er enghraifft, arbenigedd arweinwyr cymunedol?

- A yw adnoddau dysgu yn dangos sensitifrwydd i wahanol grwpiau a diwylliannau?

- A yw’r ysgol yn cofnodi pob digwyddiad hiliol ac yn rhoi gwybod i rieni neu warchodwyr, llywodraethwyr yr ysgol a’r awdurdod addysg lleol amdanynt?

- A yw’r ysgol yn dadansoddi hunaniaeth ethnig y disgyblion sy’n cael eu gwahardd?

- Faint mae’r ysgol yn ei wybod am iaith y disgyblion yn y cartref, eu diwylliannau, eu gwerthoedd a’u harferion?

3 Saesneg fel iaith ychwanegol

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi arian i awdurdodau addysg lleol ar gyfer cyflawniad disgyblion o leiafrifoedd ethnig drwy grant cyflawniad lleiafrifoedd ethnig (MEAG, roedd yn arfer bod yn EMAG). Nod y grant hwn yw gwella cydraddoldeb cyfleoedd addysgol i bob grŵp ethnig lleiafrifol gan gynnwys y rhai sydd â Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Yn ôl arolwg a gyhoeddwyd gan Estyn am ddefnyddio adnoddau EMAG yn effeithiol:

- ychydig o athrawon prif ffrwd sydd â'r hyfforddiant a'r medrau i fodloni disgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol yn effeithiol; a

- nid oed digon o gydweithrediad rhwng athrawon prif ffrwd y disgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol a'r athrawon cymorth EMAG wrth gynllunio profiadau'r disgyblion.

Dylai arolygwyr cofnodol sicrhau bod yr adran am gyd-destun yr ysgol yn cynnwys manylion, lle bo'n berthnasol, am yr ieithoedd sy'n cael eu siarad, a nifer y disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Dylai pob arolygydd tîm sicrhau eu bod yn defnyddio'r derminoleg gywir wrth gyfeirio at ieithoedd cymunedol ac osgoi enwau sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin os ydynt yn anghywir.

Mewn ysgolion lle mae Saesneg yn iaith ychwanegol i gyfran helaeth o'r disgyblion, dylai sylwadau am faterion fel safonau, lles, dysgu, profiadau, ac ati, gael eu cynnwys yn yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad llawn.

Dyma rai cwestiynau i'w gofyn mewn cysylltiad â Saesneg fel iaith ychwanegol:

- A oes polisi ysgol gyfan i gynorthwyo disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol ac, os felly, a yw'n cael ei weithredu'n gyson?

- A yw'r amgylchedd yn groesawgar i ddisgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol?

- A yw'r athrawon yn defnyddio gwybodaeth am yr ieithoedd y mae'r disgyblion yn eu siarad?

- A yw'r cwricwlwm cyfan ar gael i ddisgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol? A oes unrhyw athrawon prif ffrwd wedi dilyn hyfforddiant i'w cynorthwyo nhw i ddeall anghenion dysgu'r disgyblion hyn?

- Pa mor agos mae athrawon Saesneg fel iaith ychwanegol ac athrawon prif ffrwd yn cydweithio â'i gilydd?

- Sut mae gwersi mewn dosbarthiadau prif ffrwd, yn ogystal ag yn ystod sesiynau tynnu yn ôl os yn berthnasol, wedi'u trefnu i fodloni anghenion y disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol?

- A yw’r ysgol yn olrhain llwyddiant ei darpariaeth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol drwy arfarnu cyraeddiadau’r disgyblion ac a yw’n defnyddio’r wybodaeth i nodi targedau ar gyfer gwella?

- A yw’r ysgol yn defnyddio’r iaith gyntaf i gynorthwyo dysgu?

- Sut mae’r ysgol yn bodloni anghenion disgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol os nad oes unrhyw addysgu cynorthwyol ar gael?

- A yw’r ysgol yn cyfieithu llythyrau a dogfennau’r ysgol i ieithoedd cymunedol? Os nad ydyw, sut mae’n cyfathrebu â rhieni sydd ag ychydig o Saesneg/Cymraeg neu ddim o gwbl?

- A yw’r ysgol yn sylweddoli’n llawn nad yw diffyg cymhwysedd yn Saesneg ar ei ben ei hun yn cyfateb i anawsterau dysgu?

- Sut mae’r ysgol yn asesu anghenion y disgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol os ydynt yn amau bod ganddynt anghenion addysgol arbennig hefyd?